# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 12.12.18 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** Ian Williams (Cadeirydd), Dylan Thomas, Huw Davies, Keith Carroll, Kevin Goodchild, Geraint Edwards, Geraint Micah, David Griffiths, Malcolm Hills, Louise Hughes (Cynghorydd Sirol), Glenda Edwards (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau:** John Griffiths.

3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14.11.18 fel rhai cywir.
   **Cynnig** – Malcolm Hills **Eilio** – Keith Carroll **Arwyddwyd** – Ian Williams.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (14.11.18):**
   **a)** Hysbysfwrdd: Glasdon Ltd wedi cysylltu → dim ffenestri persbecs ar gael bellach
   **Penderfyniad** ➞ ceisio cael prisiau gan gwmnïoedd lleol rŵan a gofyn iddynt eu gosod hefyd.
   **b)** Arwydd ar ochr y ffordd wedi ei orchuddio gyda gordyfiant ger Glanaig, Llywngwril ➞ cadarnhad gan Gyngor Gwynedd fod y goeden wedi ei chlirio.
   **c)** Arwydd ger giât Mynwent y Crynwyr yn beryglus ac angen sylw ➞ Pwyllgor y Crynwyr wedi cysylltu i gadarnhau y byddent yn gwneud ymweliad safle yn fuan.

5. **Gohebiaeth:**
   **a)** Llwyngwril Environmental Group - llythyr o ddiolch gan y grŵp am y cyfraniad ariannol gan y Cyngor Cymuned.
   **b)** Llythyr wedi ei dderbyn gan aelod o'r gymuned ynglŷn â'r eitemau gwau yn cael eu gosod ar y meinciau ar y llwybrau cyhoeddus → Malcolm Hills wedi cynnig cael gair gyda'r grŵp gwau i geisio datrys y broblem.
   **c)** Elusen Calonnau Cymru - Apêl Nadolig 2018 - cais am gyfraniad ariannol ➞ penderfynu peidio cefnogi'r cais yma.
   **d)** Ymgynghoriad ar Bolisi Gosod Tai Cyffredin Gwynedd - gwybodaeth wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd.
   **e)** Gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar swm priodol dan Adran 137 ar gyfer 2019-20 = £8.12 am bob etholwr.
   **f)** Un Llais Cymru = Agenda → 28.11.18, Cofnodion → 26.09.18.
   **g)** **Cynllun Partneriaethu Toiledau Cyhoeddus ➞ 2019-20 & 2020-21**
   **Penderfyniad** ➞ gofyn i Gyngor Gwynedd gadarnhau beth fydd y pris am y ddwy flynedd nesaf.

6. **Materion Cynllunio**:
   **a)** **Cais: NP5/69/L160 – Capel Peniel, Llwyngwril –** troi capel yn dy
   ➞ dim sylwadau/gwrthwynebiadau gan y Cyngor Cymuned i gyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri.
   **b)** **Cais: NP5/69/LB150D + NP5/69/LB150C - Tŷ Nant, Llwyngwril**
   **Penderfyniad** ➞ sylwadau i'w cyflwyno i'r Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â'r cais yma:
   - **mynediad ddim yn dangos yn gywir ar y cynllun**
   - **→ yn cynyddu maint y plot**
   - **→ hawlio tir sydd ochr allan ei eiddo.**

- ***David Griffiths wedi datgelu buddiant personol, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo'r ffurflen briodol. Nid oedd yn fuddiant sy'n rhagfarnu, ond ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r penderfyniad.***

7. **<u>Adroddiad Ariannol</u>**: Derbyniwyd Adroddiad Mis Tachwedd 2018 yn gywir.
   **Cynnig –** Geraint Edwards **Eilio –** Hugh Davies **Arwyddwyd –** Ian Williams.

   **a)** £226.05 = Gwasanaeth Archwilio Allanol – ar gyfer cyfrifon 2017/18 → BDO.
   **b)** £900.00 = Gwasanaeth torri gwair y cae chwarae am 2018/19 → Cyngor Gwynedd.

8. **<u>Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:</u>**
   **a)** **Gwasanaeth y Cofio – 11.11.18 –** diolch i Keith Carroll am fynychu'r gwasanaeth a gosod y "wreath".
   **b)** **Pwyllgor Y Ganolfan -** diolch i Malcolm Hills am fynychu cyfarfod Y Ganolfan yn ddiweddar.
   **c)** **Llwyngwril Environmental Group (LEG) -** Ian Williams, Geraint Edwards, Malcolm Hills a John Griffiths wedi cwrdd hefo'r grŵp. Nodwyd fod y grŵp wrthi'n ceisio codi arian i'w cronfa, ond bod eu cais cyntaf am grant heb fod yn llwyddiannus. Gwybodaeth wedi ei drosglwyddo i'r grŵp ynglŷn â grantiau eraill.

9. **<u>Adroddiad y Cynghorydd Sirol</u>:** Derbyniwyd adroddiad Louise Hughes.
   **a)** Nodwyd fod y cais cynllunio i adeiladu Shed Ieir yng Nhastell Mawr, Llanegryn wedi ei ganiatáu.
   **b)** Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambren – adroddodd Louise Hughes ei bod wedi mynychu'r cyfarfod - 30.11.18 – ond doedd dal ddim dyddiad wedi ei osod at pryd fyddai'r gwaith ar y ffordd rhwng Llwyngwril a Friog i gychwyn
   **Penderfyniad** ➡ gwahodd Ben Davies a Sam Hadley i gyfarfod nesa'r Cyngor Cymuned.

10. **<u>Unrhyw Fater Arall</u>:**
   **a)** Nodwyd fod Grace a Geraint Micah wedi dal un twrch daear yn y cae chwarae.
   **b)** Aelodau'r Cyngor Cymuned wedi rhoi Coeden Nadolig Rhoslefain i fyny.
   **c)** Diolch i Geraint Williams, Trydanwr, am roi'r goleuadau ymlaen.
   **d)** Coeden Nadolig Llwyngwril – i'w rhoi i fynnu penwythnos nesaf.
   **e)** Nodwyd fod arwydd wedi ei roi i fyny wrth y toiledau cyhoeddus yn Llwyngwril i ddweud fod y toiledau ar gau, a bod y toiledau cyhoeddus agosaf wedyn yn Nhywyn …..
   **Penderfyniad** ➡ hysbysu Cyngor Gwynedd fod y wybodaeth yma yn anghywir.
   Mae toiledau cyhoeddus ar agor yn Llanegryn ac yn Fairbourne.

## <u>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher - 09.01.19 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan</u>

**<u>Arwyddwyd</u>**
**Cadeirydd** ………………………………………………………………………………………………… **Dyddiad** ……………………………